**Y Gwir Anrh/ Rt Hon Mark Drakeford AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dai Rees AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd

23 Mai 2019

Annwyl Dai,

Rwy'n ysgrifennu mewn perthynas â chwestiwn gan Mike Hedges AC yn y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar 29 Ebrill. Fe roddais addewid i ddarparu ymateb ysgrifenedig. Roedd y cwestiwn yn ymwneud â rheoli cychod pysgota o rannau eraill o Ewrop sy'n dymuno pysgota yn nyfroedd Prydain a Chymru.

Bydd Bil Pysgodfeydd y DU, pan gaiff ei weithredu, yn cael gwared ar fynediad awtomatig cychod o'r UE i ddyfroedd y DU, gan adlewyrchu trefniadau newydd lle bydd mynediad i bysgodfeydd Prydain yn cael ei negodi drwy gytundebau gwladwriaethau arfordirol blynyddol.

Bydd y Bil yn sefydlu trefn drwyddedu ar gyfer cychod o'r tu allan i'r DU. Wedi i ni ymadael â'r UE, bydd rhaid i gychod o wladwriaethau arfordirol y mae gan y DU gytundeb gyda hwy, ac sy'n dymuno pysgota ym Mharth Cymru (neu Ddyfroedd y DU yn ehangach) gael awdurdodiad ar ffurf trwydded flynyddol. Bydd y rhain yn cael eu rhoi gan yr Awdurdod Dyroddi Sengl ar ran Gweinidogion Cymru a Gweinidogion Pysgodfeydd o weinyddiaethau eraill y DU. Ar yr adeg pan na fyddwn bellach yn cael ein rhwymo gan y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, bydd system drwyddedu newydd ar gyfer cychod tramor yn cael ei lansio, a bydd y system honno yn rhoi mwy o reolaeth i ni dros weithgareddau cychod pysgota tramor o fewn Cymru a Pharth Cymru nag erioed o'r blaen.

Cafodd y cyfleoedd pysgota yn nyfroedd Ewrop (gan gynnwys dyfroedd y DU) ar gyfer 2019 eu negodi, a chytunwyd arnynt, yng nghyfarfod Cyngor yr UE ym mis Rhagfyr 2018. Pe baem ni'n gadael yr UE yn ystod 2019, byddai'r cyfleodd hyn (ee y cwota pysgota) yn debygol o barhau i fod yn gymwys, a byddai cychod o'r UE sy'n dymuno pysgota yn erbyn y cwotâu hynny yn nyfroedd y DU yn gallu parhau i wneud hynny, ar yr amod eu bod yn derbyn awdurdodiad gan y DU (trwydded). Ni fydd hyn yn arwain at gyfleoedd ychwanegol i gychod o'r UE bysgota yn nyfroedd y DU. Bydd unrhyw gyfleoedd pysgota wedi hynny yn destun negodiadau gwladwriaethau arfordirol blynyddol rhwng y DU a'r UE. Byddai cychod o drydydd gwledydd sy'n dymuno pysgota yn nyfroedd y DU a glanio yn eu porthladd cartref hefyd yn gorfod bodloni rheolaethau ychwanegol cyn iddynt allu glanio eu dalfa.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er ei bod yn bosib, mae newid baner cwch yn waith anodd a drud, yn rhannol oherwydd natur gyfyngus system drwyddedu'r DU. Byddai unrhyw gwch fyddai am newid ei baner yn gorfod prynu trwydded y DU sy'n briodol ar gyfer y cwch ynghyd â'r cyfleoedd pysgota angenrheidiol, ac mae'r ddau yn brin. At hynny, byddai'r cwch yn gorfod wynebu'r rheolaethau ychwanegol a'r rhwystrau tariff a di-dariff posibl fydd yn wynebu busnesau pysgota sydd wedi'u cofrestru yn y DU fydd am allforio'u dalfeydd i Ewrop.

Rwy'n meddwl ei bod yn annhebygol y byddai unrhyw gychod Ewropeaidd ychwanegol yn ceisio lleoli eu hunain yn y DU wrth i ni ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Gobeithiaf y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd i'r pwyllgor.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn hefyd at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig yn unol â'r cais a wnaed yn ystod y sesiwn.

Yn gywir,

Mark

**MARK DRAKEFORD**